

## LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

### Ffatri Llaeth Llangefni (c 1949-66)

**Cyfwelai:** VN033 Mair Griffiths  
**Dyddiad:** 25: 07: 2014  
**Cyfwelydd:** Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary of the interview following the Welsh text*

Cadarnhaodd Mair ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 14/07/1932.

Ffermio oedd ei thad ac roedd Mair yn un o saith o blant. Gwerthodd y teulu'r fferm ar ôl marwolaeth ei thad. Roedd rhai o'i chwirydd yn gweithio mewn ffatri wnïo. Aeth Mair i'r ysgol yn Llangefni, gan adael yn 16 oed, a chwilio am waith. Gan ei bod hi'n un o saith, roedd yn rhaid iddi gael gwaith, meddai. Eisiau bod yn nyrs yr oedd hi ond roedd yn rhaid aros tan iddi gyrraedd 19 oed. Dysgodd hi i deipio yn y British School tra'i bod hi'n chwilio am swydd a chafodd hi swydd yn y ffatri llaeth, er ei bod hi'n trïo am swydd yn y ffatri wnïo hefyd. Cafodd hi'r swydd ar ôl cael cyfweiliad ac roedd hi'n teimlo'n hapus i gael swydd. Yn 1949 yr oedd hyn a dywedodd sut, yn 1966, y diswyddodd ffatri nifer o wragedd priod ac roedd yn rhaid i Fair orffen yn y flwyddyn hon, a oedd yn dipyn o sioc, a chafodd hi ddim iawndal. Yr arfer oedd *'first in last out'* ond doedd hyn ddim wedi digwydd yn yr achos hwn. Dim ond dwy o ferched oedd yn gweithio yno ar y pryd, meddai, yn lab, ond roedd merched yn y swyddfa (?).

Dysgodd hi sut i brofi llaeth trwy wneud y gwaith. Roedd y berthynas rhwng y gweithwyr yn dda, er bod Mair yn eithaf swil. Roedd merch oedd wedi dechrau'r un diwrnod â hi, yn 22 oed ac achos ei bod hi wedi gwneud swydd arall cyn dod i'r ffatri laeth, ac roedd Mair yn ei gweld hi yn llawer hŷn. £1, 12 a 6 oedd ei chyflog cyntaf ac roedd yn rhoi'r rhan fwyaf ohono i'w mam. Roedd hi'n byw ym Modffordd ac yn mynd i'r ffatri yn Llangefni ar y bws. Ar un adeg roedd yn rhaid iddi weithio shifft nos, a phrynodd hi feic er mwyn cyrraedd y gwaith. Yn y dechrau, roedd hi'n gweithio o naw tan bump, ond doedd hi ddim yn teimlo ei fod o'n diwrnod hir. Roedden nhw'n cael brêc am ddeg, amser cinio, a phaned am dri. Doedd dim cantîn yno ond oedd cwtsh bach lle roedden nhw'n rhoi'u cotiau ac roedd bwrdd yno. Doedd dim tegell yno ac roedden nhw'n cynhesu dŵr ar gyfer paned yn y lab (?).

Roedd hi'n mynd â brechdanau i mewn yno ond yn y diwedd roedd cantîn yno.

8.30 Roedd tua chwech o ferched yno pan ddechreuodd hi, pawb yn sengl. Wrth ddisgrifio'r gwaith, dywedodd Mair fod loris yn dod â llaeth yno bob dydd mewn caniau, o'r ffermydd o gwmpas, ac roedd rhaid i ferched y lab brofi'r llaeth; roedd dwy ferch yn gweithio gyda'i gilydd, un i gasglu'r sampl o'r can a'r llall i gymryd enwau'r ffermydd, ac âi'r llaeth i'r lab i'r *butterfat* gael ei

brofi. Roedd y can yn mynd i gael ei dipio mewn i can mawr wedyn. Roedd yn broses o brofi'r sampl - agor y can a throir'r llaeth er mwyn ei arogl; os oedd yn sur, roedd rhywfaint o'r sampl (*antibiotic?*) yn mynd i mewn i *incubator* tan y diwrnod wedyn. Roedd yn rhaid i'r can aros tan i ganlyniad y profi suro ddod trwodd ond doedd hynny ddim yn cymryd hir iawn. Os oedd y llaeth yn iawn, roedd yn mynd i mewn i boteli neu'n cael ei yrru i ffwrdd. Os oedd rhywbeth yn bod efo'r llaeth, y diwrnod wedyn byddai'n mynd yn ôl i'r ffermwr a ni fyddai hwnnw'n cael ei dalu, a byddent yn gwyllo lori'r ffermwr hwnnw am dri diwrnod wedyn. Ar wahân i fynd yn sur, roedd y merched yn dod o hyd i '*foreign bodies*' yn y llaeth - tamaid o gig, *curlers* pan oedd dynes y fferm wedi cael perm. Byddai'n rhaid iddynt ddeud wrth y ffermwyr bod hyn wedi digwydd trwy alwad ffôn o'r swyddfa. Roedd y ffermwyr yn cael llythyr os oedd y can y rhy ysgafn. Ac os oedd yr un ffermwr yn cael ei laeth yn ôl yn rhy aml, am ei fod yn sur er enghraifft, byddai hwnnw yn cwyno wrth ferched y lab. Ond roedd pawb yn nabod ei gilydd, yn enwedig mewn ardal agos.

17.00 Roedd y merched yn gweithio efo asid i brofi'r *butterfat*, er eu bod yn gwisgo overalls. Ond roedd Mair yn cofio un hogan oedd dim yn cymryd sylw o'r acid ar ei bys a chafodd hi ?? Ond nad oedd y gweithwyr yn gwisgo'r menig roedden nhw i fod i'w gwisgo, doedden nhw ddim yn gallu reportio pethau felly. Roedd pobl yn torri'r rheolau fel hyn, weithiau, er bod *supervisor* yn gwyllo beth roedden nhw'n ei wneud. Roedd y merched yn gorfod gwisgo wellingtons os oedden nhw'n mynd allan i gasglu'r samplau. Oes nad oedd y sampl yn iawn, roedd y llwyth cyfan yn cael ei brofi'r diwrnod wedyn (?). Roedd y gwaith yn ddiddorol, meddai.

Roedd y ffatri yn lân iawn ac roedd llawer o olchi efo dŵr gan y dynion. Roedd y poteli yn cael eu golchi a'i sterileisio a'u rhoi mewn centrifuge a phopty. Roedd Mair yn gwneud yr un swydd trwy gydol yr amser y bu hi yno. Roedd y rheolwyr yn dda iawn, yn enwedig Mr R. Thomas, a fu farw yn ei swyddfa toc ar ôl gorffen gwaith am bump o'r gloch. Roedd tua dwsin o ferched yn y ffatri, rhwng y lab a'r swyddfa, lle roedden nhw'n gwneud pethau fel y cyflog. Roedd llawer o ddynion yno. Roedd y rhan fwyaf yn siarad Cymraeg er bod ambell i Sais. Ond roedden nhw'n Gymry i gyd yn y lab.

Aeth ei chyflog i fyny a phan oedd hi'n gadael yn 1966, roedd hi'n ennill £11. 30. Roedd rhai o'r gweithwyr yn mynd i goleg i ddysgu mwy am y gwaith, fel Eirlys a Maggie ac Helen. Doedd Mair ddim yn cael cynnig mynd (na Rosie chwaith VN032). Doedd neb yn meddwl am y ffaith bod rhai yn mynd ac eraill ddim yn cael cyfle. "Oedden ni mewn gwaith a dyna fo." Doedd Mair ddim yn meddwl llawer am wella ei swydd.

Dydy hi ddim yn cofio undeb yno, er bod Rosie wedi son bod undeb gan y dynion ond dim gan y merched. Ar yr adeg pan oedd yn rhaid i Mair gael ei diswyddo, roedd menyw, rheolwraig y swyddfa, yn sgwennu llythyr drosti i'r Brif Swyddfa, ond tasa undeb wedi bod yno i'r merched, efallai gallai hwnnw fod wedi ymladd drosti. **Rheswm y diswyddo oedd diffyg llaeth a chafodd dwy o ferched o'r lab ei diswyddo, Mair ac Eirwen, achos roedd y ddwy ohonynt wedi priodi, o leiaf dyna oedd yr ateb a gafodd y ddynes oedd wedi sgwennu drosti i ofyn pam.** Doedd dim dewis ganddi ond credu'r rheswm hwn ar y pryd. "Dywedodd wrthi eu bod nhw'n stopio'r gwagedd cyn y *last in first out*." Cafodd hi rybudd o bum wythnos. Roedd Mair yn gorfod mynd ar y dôl am £4; cyn hyn roedd merched yn gallu mynd i'r blaen yn y *dole queue* ond dim yr adeg y bu hi'n arwyddo. Roedd llawer allan o waith ar y pryd ond cafodd hi waith mewn siop dros y gaef.

31.00 Roedd dynion y ffatri yn yr undeb, y merched ddim. Doedd dim un o'r merched yn trafod hyn. Chafodd y llythyr roedd Mrs Thomas wedi sgwennu drosti ddim effaith - "yr adeg hynny roeddech chi'n derbyn pob peth." Roedd Mair wedi priodi yn 1958, dyn a oedd y gyrru lori llaeth yn y ffatri, ond doedd dim plant ganddi. **Roedd hi'n ddigalon a dig yn gweithio'r pum wythnos olaf yn y ffatri a wnaeth y merched ddim siarad am y peth gan fod o'n "berygl i ddeud dim byd adeg hynny."** Doedd dim parti ffarwelio ond cafodd hi anrheg oddi wrth y merched eraill.

Doedd hi ddim yn gweithio shifft nos am hir ac roedd hynna wedi gorffen erbyn iddi hi briodi. **Un tro pan oedd hi'n gweithio ar shifft nos, yn ystod ei brêc o awr, aeth i lawr i ryw glwb yn Llangefni i weld y dawnsio, i weld pwy oedd yno, ac roedd y rheolwr yn aros amdani wrth y drws pan ddychwelodd hi a gofyn iddi lle roedd hi wedi bod, doedd o ddim yn hapus.** Doedd dim dewis ganddi ond gwneud y shifft nos yr adeg hynny, meddai, a dydy hi ddim yn cofio os oedd mwy o gyflog am wneud.

Ar ôl priodi, doedd hi ddim yn mynd allan llawer, jyst aros yn y tŷ a gwneud gwaith tŷ. Dydy hi ddim yn cofio beth oedd ei gwyliau a doedd y ffatri ddim yn cau am bythefnos yn yr haf achos y godro. Doedden nhw ddim yn cael gwyliau banc chwaith ond roedd 'na wyliau blynyddol. Roedd Mair yn arfer mynd i'r eisteddfod adeg y gwyliau. Yn Llangaffo roedd hi'n byw ar ôl priodi.

Yn 1958, aeth hi ar daith i Bourneville gyda'r cwmni, pan oedd y ffatri yn nwylo Cadbury's.

Hyd: 40 munud

### *English summary*

#### **Ffatri Llaeth Llangefni (c 1949-66)**

**Interviewee:** VN033 Mair Griffiths

**Date:** 25: 07: 2014

**Interviewer:** Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Mair confirmed her name, address and date of birth - 14/07/1932.

Mair's father was a farmer and she was one of 7 children. The farm was sold on her father's death. Some of Mair's sisters worked in a sewing factory. She went to school in Llangefni and left aged 16 to look for work. She wanted to be a nurse but had to wait until she was 19. She learnt to type in the British School, was interviewed for a job in the milk factory and was successful. This was in 1949 – in 1966 the factory let go a number of married women, and Mair along with them. She was shocked and received no sort of compensation.

Whilst working there, Mair learnt how to test the milk. Her first wage was £1, 12s and 6d, most of which she gave to her mother. She lived in Bodffordd and travelled by bus to the factory in Llangefni. At one time she worked the night shift and bought a bicycle to get to work. Initially she worked from 9-5 and didn't find the hours long. There were breaks at 10, lunchtime and a tea-break at 3. There was no canteen, just a table where the workers hanged their coats. The tea water was

heated in the lab. Mair took sandwiches every day until they built a canteen.

8.30 There were six girls working at the factory when Mair started – all single girls. Every day, lorries brought milk in churns from outlying farms which was tested by the girls in the lab. The girls worked in pairs, one to take a sample from the churn, the other to note the farms' names. The milk was then taken to the lab to test the butterfat. The churn was then emptied into a larger vat. Mair describes the testing process – opening the churns, stirring the milk, smelling it; if it was sour a sample was placed in an incubator overnight. The test results didn't take too long to come through. If all was well, it was bottled; if not, it was returned to the farmer who'd receive no payment for it. Sometimes the girls found foreign bodies in the milk – a piece of meat or even curlers when the farmer's wife had a perm. The farmer was usually notified of this by phone from the office or he might receive a letter if the churns were too light. If his milk was returned too often (e.g. for sourness) the farmer would complain to the girls in the lab.

17.00 The girls in the lab worked with acid and wore overalls but they didn't always wear the required gloves even though they were supervised. They were supposed to wear wellingtons when going out to collect samples. The factory was very clean as it was constantly washed by the men. The bottles were washed and sterilised – placed in a centrifuge and an oven. Mair thought the managers were very good – especially Mr R Thomas who died in his office directly after finishing work at five o'clock one day. Mair remembers there being about a dozen girls between the lab and the office where the wages were done. There were a lot of men. Most of the workers spoke Welsh with the odd Englishman – but the lab workers were all Welsh.

When Mair left the factory in 1966 her wages had risen to £11.30. Some of her colleagues (Eirlys, Maggie and Helen) were sent to college to learn more about the work. Nobody wondered why some were chosen and some weren't. Mair was grateful to have a job.

Mair cannot recall a workers' union at the factory, even though Rosie (VN032) remembers that only the men had a union. Mair lost her job when there was a drop in the amount of milk supplying the factory – two girls were lost from the office: Mair and Eirwen. The manageress in the office wrote to Head Office on their behalf. The official reason for choosing them both was because they were married. Mair had no choice other than to believe that this was the real reason and that the policy was to lose women before using the *last in first out* rule. Had there been a union for the women, perhaps it could have fought Mair's case. She was given 5 weeks' notice and then drew the dole which was £4/week. Previously, women had been able to go to the front of the dole queue, but this was no longer the case. There were many unemployed at the time, but Mair found work in a shop for the winter.

31.00 The fact that the men at the factory were in a union but the women were not was never discussed. The letter to Head Office written by Mrs Thomas had no effect and there was a stoic acceptance of the way things were. Mair had married in 1958 – her husband drove a milk lorry for the factory, but they had no children. As she worked her 5 weeks' notice, Mair was downhearted and angry, but none of the other girls mentioned the subject of her leaving as it was dangerous to speak out in those days. There was no farewell party but the other girls bought her a present.

Mair didn't work a night shift for very long – and that came to an end before she was married. Mair recalls an incident that happened one evening at work. During her hour break she went down to a club in Llangefni to see who was there and to watch people dancing. When she returned to work the manager was waiting for her at the door. He asked her where she'd been and wasn't happy about the situation. Mair had no choice but to do a night shift back then although she can't remember whether she was paid more for doing so.

Once married, Mair lived in Llangaffo but didn't leave the house much and spent her time doing housework. She can't recall her annual holiday allowance although the factory didn't close for a fortnight over the summer because cows had to be milked and milk produced. Bank holidays didn't affect them either. Mair used to go to the Eisteddfod during her holidays.

In 1958, she went on a factory outing to Bourneville when it was still owned by Cadbury's.

Duration: 40 minutes